**CYFARFOD BLYNYDDOL - CYNGOR CYMUNED CYNWYL ELFED**
A gynhaliwyd ar Nos Lun 19.05.2025 am 7.00 p.m.

YN BRESENNOL: Cyng. Amy Evans (Cadeirydd), Cyng. Elfed Davies, Cyng. Eifion Jones, Cyng. Delme Phillips, Cyng.Bryan Davies, Cyng. Aled Jones, Cyng. Julian Evans a'r Cyng. Robin Bowen.
Clerc: Enid Davies
Cyfieithydd: Hefin Jones

APOLOGIES: Dim.

| | |
|---|---|
| 1 | **Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod Blynyddol a gynhaliwyd ar 20 Mai 2024**<br>Cymeradwywyd cofnodion Cyfarfod Blynyddol 20.05.2024 gan Cyng. Julian Evans ac eiliwyd gan y Cyng. Amy Evans. |
| 2 | **Materion yn codi o'r cofnodion.**<br>Dim |
| 3 | **Enwebu Cadeirydd am y flwyddyn 2025-2026**<br>Penderfynodd y Cyngor yn unfrydol i ethol y Cyng. Amy Evans yn Gadeirydd am y flwyddyn. Cynigiwyd gan y Cyng. E. Davies ac eiliwyd gan y Cyng.R. Bowen. |
| 4 | **Enwebu Is-Cadeirydd 2025-2026**<br>Penderfynodd y Cyngor yn unfrydol i ethol y Cyng. Delme Phillips yn Is-Gadeirydd am y flwyddyn. Cynigiwyd gan y Cyng. R.Bowen ac eiliwyd gan y Cyng. E.Jones |
| 5.. | **Enwebu Aelodau i Bwyllgorau Arbennig**: Penderfynodd y Cyngor fod y Cyngor yn cael ei gynrychioli ar bwyllgorau arbennig fel y canlynol: |
| a. | **Pwyllgor Henoed -** Cyng.Julian Evans |
| b. | **Corff Llywodraethol Federasiwn Ysgolion Cynwyl Elfed a Llanpumsaint -** Cyng. Delme Phillips. |
| c. | **Un Llais Cymru Pwyllgor Ardal -** Cyng. Amy Evans (Cadeirydd) a'r Cyng. Bryan Davies. |
| d. | **Pwyllgor Sirol Un Llais Cymru -** Cyng. Amy Evans a'r Cyng. Bryan Davies |
| e. | **Pwyllgor Neuadd Cymdeithasol Cynwyl Elfed -** Cyng. Julian Evans a'r Cyng. Aled Jones .( Disgwylir i holl aelodau'r Cyngor fynychu cyfarfodydd a chymryd diddordeb mewn materion yn ymwneud â Neuadd Cynwyl Elfed). |
| f. | **Cae Chwarae Bro Elfed Playing Field -** Cyng. Robin Bowen, Cyng. Julian Evans a'r Cyng. Amy Evans. |
| g. | **Elusen Unedig Cynwyl Elfed** - Cyng. Eifion Jones, Cyng. Delme Phillips a'r Cyng. Amy Evans. |

| | |
|---|---|
| 6 a.<br><br><br><br>b.<br><br><br>c<br><br><br><br>d. | **<u>Trafod a chymeradwyo Cyfrifon Blynyddol am y flwyddyn 2024/2025</u>**<br>Mae Cyfrifon am y flwyddyn 2024/2025 gyda'r Ymchwiliwr Mewnol. Penderfynwyd penodi H. Doody o Bevan&Buckland, Cyfrifwyr. yng nghyfarfod mis Ebrill, c. (6) 22.04.24.<br>**<u>Rheoliadau Sefydlog -</u>** Penderfynodd y Cyngor derbyn Model Rheolau Sefydlog 2023 (Cymru) ar gyfer Cyngor Cymuned Cynwyl Elfed. (Adolygu'r 16.10.23 cof.54).<br>**<u>Rheoliadau Ariannol -</u>** wnaed diwygiad i 2.6 (*t.4*) "*bydd un aelod a'r Cadeirydd yn cael eu penodi i wirio'r cysoniadau banc*". Penderfynodd y Cyngor dderbyn Model Rheoliadau Ariannol (2025) wedi'i ddiwygio yn briodol am y flwyddyn 2025/2026.<br>**<u>Asesiad Risg Ariannol a Rheolaethol</u>** Roedd y Clerc wedi cynnal Asesiad Risg Ariannol a Rheolaethol ar gyfer y flwyddyn 2025/2026 . Mae un anfoneb i ddod oddi wrth y Cyngor Sir sef anfoneb wrthynt am Gweithiwr Glanhau hyd at 28.09.24 pan ddaeth y gwasanaeth hwn i ben. Derbyniodd y Cyngor yr Asesiad Risg Ariannol a Rheolaeth ar gyfer 2025/2026. Penderfynwyd bydd y Cadeirydd ar Is-Gadeirydd y adolygu'r asesiad risg pob mis ar yr un pryd â'r cysoniad banc. Penderfynwyd bydd y Cadeirydd ar Is-Gadeirydd a'r Clerc yn cwrdd ar yr ail nos Lun o bob mis am 7.30 *y.h.* a chymeradwywyd y gellir archebu ystafell yn y neuadd i'r pwrpas hyn. |
| 7 | **<u>Cyflog y Clerc:</u>**<br>Penderfynwyd yn unfrydol gan y Cyngor i Enid Davies barhau yn Glerc a Swyddog Cyfrifol Ariannol am y flwyddyn 2025/2026. Penderfynodd y Cyngor yn unfrydol i godi cyflog y clerc i £13.50 yr awr am y flwyddyn 2025/2026, mae hwn i'w adolygu unwaith bydd y Clerc yn ennill Tystysgrif CiLCA (Tystysgrif Mewn Gwenyddiaeth Llywodraeth Leol).<br>Mae'r Clerc hefyd i gael ei had-dalu am wariant e.e. stampiau, deunydd ysgrifennu ac yn y blaen pob cwarter (Gorf./Medi/Rhagfyr/Mawrth). |
| 8 | **<u>Dyddiadau cyfarfodydd yn y dyfodol</u>**<br>Penderfynwyd yn unfrydol gan y Cyngor barhau i gynnal cyfarfodydd am 7.30 ar y trydydd dydd Llun o bob mis. Nid yw'r Cyngor yn cwrdd ym Mis Awst. Bydd y Cyngor yn penderfyni yng nghyfarfod mis Tachwedd a fydd yn cyfarfod ym mis Rhagfyr ai peidio. Bydd y Clerc i gysylltu gyda'r Cadeirydd â'r Is-Gadeirydd os bydd unrhyw faterion brys yn codi. |
| 9 | **<u>Unrhyw Fusnes Arall.</u>**<br>Dim. |

Daeth y cyfarfod i ben am 7:50 *y.h.* Mae cyfarfod blynyddol y flwyddyn nesaf y cyngor i'w gynnal ar **18.05.2026 am 1900 awr.**

**<u>Signed…………………………………………………………..</u>**

**<u>Date………………………………………………………………</u>**